DINESYDD
MEHEFIN
PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH
1982
RHIF 87

# CROESO I GYMRU IOAN PAUL II



Am bythefnos, yr oedd amheuon lu ynghylch ymweliad y Pab. Yn ôl papurau a phobl o ddylanwad y tu mewn a'r tu allan i'r Eglwys, byddai'r sefyllfa yn Ne Môr Iwerydd yn ei gwneud hi'n amhosibl i'r Pab ymweld â Phrydain. Canlyniad hyn oedd gorfodi'r Pab i gymryd cam annisgwyl a dramatig gan wahodd cardinaliaid Prydain ac Ariannin i Rufain a chodi eu golygon uwchlaw ystyriaethau cenhedloedd a gwledydd. Wrth wneud hyn, yr oedd yn ein hatgoffa ni oll fod undod y teulu catholig yn ddyfnach ac yn bwysicach nag ymrafael llywodraethau. Mae'n sicr gennyf, pan ddaw atom yn awr, fe fydd yn siarad am heddwch ac am ddyletswydd pawb i geisio heddwch a thangnefedd rhwng unigolion, grwpiau a phobloedd. Fy ngobaith cyntaf am yr ymweliad yw y bydd pobl yn gwrando ar ei eiriau ac yn gweithredu er mwyn sicrhau heddwch. Mae gan bobl Cymru resymau arbennig iawn dros ddymuno gweld tangnefedd yn teyrnasu rhwng Prydain a'r Ariannin.

Ar daith pregethu y bydd y Pab pan ddaw i Brydain. Fe fydd yn gweinyddu'r offeren ond nid oes angen Pab i wneud hynny. Fe fydd yn siarad wrthym ni Babyddion am ein dyletswyddau Cristnogol yn y byd sydd ohoni. Gobeithio y cawn ni ras i wrando ac i dderbyn - derbyn ei gyngor, ei gyfarwyddyd a'i gerydd.

Ychydig iawn o gyhoeddusrwydd a roddwyd i'r hyn fydd yn digwydd yn y prynhawn yng Nghastell Caerdydd. Ar ran yr Eglwys Babyddol, fe anfonodd yr Archesgob Murphy wahoddiad i Gyngor Eglwysi Cymru a'r holl gyrff crefyddol sydd yn aelodau o'r Cyngor. Gwahoddiad oedd i gwrdd â'r Pab. Mae pobun wedi derbyn y gwahoddiad. Fe luniwyd ffurf a threfn i'r achlysur mewn nifer o gyfarfodydd rhwng y gwahanol eglwysi. I mi yn bersonol, ymhlith y profiadau hyfrytaf yn yr holl baratoi oedd yr ysbryd cyfeillgar a graslon a gafwyd yn y cyfarfodydd hyn. "Mor dda a mor ddymunol yw i frodyr fyw yn gytûn" medd y salmydd ac yr oedd y cyfarfodydd hyn yn argoeli'n dda am y dyfodol eciwmenaidd a Christnogol yng Nghymru. Yng nghanol y prynhawn, bydd cynrychiolwyr Cristnogion yng Nghymru yn cydweddio ac yn datgan eu Ffydd a'u gobaith yn ein Gwaredwr ni oll, yr Arglwydd Iesu Grist.

Peth a all fod yn bwysig i'r dyfodol yw'r ffaith fod y Pab ar ei deithiau ym Mhrydain wedi cydnabod hunaniaeth arbennig Cymru. Ychydig iawn o arweinwyr o ddylanwad bydeang sydd wedi gwneud hyn o'i flaen.

Mae seiliau hunaniaeth Cymru ynghlwm wrth Gristnogaeth. Gobeithiaf y bydd dyfod y Pab i Gymru yn achlysur pan fydd pawb yn y wlad hon yn dod yn fwy ymwybodol o'r dreftadaeth a draddodwyd i ni. Gobeithiaf y bydd hyn yn wir am y rhai sy'n croesawu'r Pab i'n plith ni ac yr un mor wir am y cyd-Gristnogion sydd yn anesmwyth ynglŷn a'r ymweliad.

Yr Esgob D. Mullins.

# GOLYGYDDOL

Erbyn ichi ddarllen hyn bydd y diwrnod hanesyddol pan ymwelodd y Pab â Chaerdydd o'n holau. Nid oes inni felly ond gobeithio i ddyheadau'r Esgob Mullins a welir yn y rhifyn hwn gael eu gwireddu.

Da o beth oedd i'r Pab gadw at ei fwriadau gwreiddiol ar ôl cadw ei ddilynwyr ar bigau'r drain cyhyd. Bu'r oedi poenus oherwydd y sefyllfa wleidyddol yn fwrn ar bawb ohonom ac yn straen gwirioneddol ingol ar Babyddion. Dylai ymweliad bugeiliol mewn ysbryd o heddwch a brawdgarwch bob amser fod uwchlaw drygioni gwleidyddion. A diolchwn mai felly y gwelodd y Pab bethau hefyd ar ddiwedd y dydd.

Diau i'r anghyfleustra a'r prysurdeb ar Fehefin y 3ydd godi gwrychyn amryw ond yn y diwedd goddefgarwch a llawenydd a ddylai deyrnasu. Gresyn nad dyna fu cymhelliad rhai o'n Cristnogion ifanc a welodd yn dda i droi ymweliad y Pab yn esgus dros ddangos eu gwrthwynebiad i Eglwys Rhufain. Digon teg fod ganddynt wrthwynebiad,wrth gwrs, ond tybed ai hwn oedd yr achlysur iawn i'w fynegi? Dylid nodi hefyd nad mynegiant teg o wahaniaeth barn ar sail diwinyddol oedd llawer o'r datganiadau a ymddangosodd yn y wasg Gymraeg yn ystod y misoedd diwethaf. Hysteria rhemp wedi ei fwydo gan ragfarn ac atgasedd oedd llawer ohono, a thrist fu gweld rhai o'n papurau enwadol yn rhoi lle i haeriadau haerllug y garfan hon.

Ymysg y cyhuddiadau enllibus yn erbyn Pabyddion, dywedwyd eu bod yn dysgu Cymraeg er mwyn denu Cymry at Babyddiaeth. Cydymdeimlwn â phob Pabydd o Gymro a gafodd y sen hwn wedi ei boeri ato. Mae erlid gwrachod yn gamwedd dan unrhyw amgylchiadau. Mae'n drychinebus o atgas pan ddigwydd yn enw Crist.

Yn awr fod ymweliad y Pab â Chymru ar ben, hyderwn mai dyna ddiwedd ar y bennod drist ac annifyr hon yn hanes ei Christnogaeth. Rhaid gadael Hanes i'w ddrygioni ei hun yn y mater hwn a gweithio ar sail cymod er lles y dyfodol.

******

Priodol i'r DINESYDD, papur bro hynaf Cymru, yw talu teyrnged i Jennie Eirian Davies. Roedd ganddi barch mawr at y papurau bro am ei bod yn sylweddoli eu pwysigrwydd. A pob dimai o'r gronfa a sefydlwyd er cof amdani i hybu ei phapur bro lleol, sef PAPUR FAMA. Rhoes arweiniad yn ystod ei hoes a thrwy'r hyn a anelodd ato yn Y FANER, gadawodd inni linyn mesur a beri'n hir ar ôl ei dyddiau. Llwyddodd i greu papur cenedlaethol amrywiol a difyr ac ynddo ddigon i gnoi cil trosto. Pa nod yn well all fod i'r DINESYDD i'r dyfodol?

Aled Islwyn.

---

Mehefin:

| | |
|---|---|
| 7-9, | Theatr y Sherman (yn yr Arena), Cwmni Sgwar 1 yn cyflwyno Diwedd y Saithdegau (Gareth Meils), 8 p.m., £2 |
| 8, | Cymdeithas Wyddonol Caerdydd. Darlith gan Dr. R. Elwyn Hughes ar 'Darwin a'i Amserau, 7.30 p.m., UWIST, Parc Cathays, Adeilad Redwood. |
| 19, | Ffair Haf Ysgol Melin Gruffydd, yn yr ysgol |
| 19, | Gŵyl Ifan; Gorymdaith trwy Gaerdydd am 11 a.m. Cwrdd yn Nantgarw am 4 p.m. ( (Gwesty Dyffryn Ffrwd) |
| 24-26 | Y Sherman, Theatr Cymru i'r Plant yn cyflwyno Doctor Dewin Y bwriad yw dod â hwiangerddi Cymraeg yn fyw ar lwyfan. Pnawn Iau: 1.30 p.m., £1.80; Gwener, 10 a.m. a 1.30 p.m., £1.80; Sadwrn, 2.30 p.m., £2.30 |
| 26, | Ffair Haf Glantaf |

Medi:

| | |
|---|---|
| 25, | Ffair Hydref yn Ysgol Glantaf, 2 p.m., Cronfa Dyfodol y Crwys. |

---

MERCHED Y WAWR

Cawsom ein cyfarfod olaf sef ein Cyfarfod Cyffredinol ddechrau mis Mai. Dewiswyd swyddogion ac aelodau newydd i'r pwyllgor a diolchodd ein Llywydd, Eirlys Davies, am bob cefnogaeth a gafodd gan y pwyllgor a'r aelodau yn ystod ei blwydd o lywyddiaeth. Diolchodd yn arbennig i Joan Bumford fu'n Ysgrifenyddes ddiwyd effeithiol a diffwdan ac i Maria Tucker a wnaeth wyrthiau fel Trysorydd.

Ar ran yr aelodau hoffwn ddiolch yn fawr i Eirlys am ein llywio drwy'r flwyddyn mor gelfydd ac mor gartrefol.

Wedi dewis ein pwyllgor newydd am y flwyddyn (heb ormod o drafferth diolch i'r drefn) cawsom gyfle i ymlacio ond nid yn ormodol oherwydd roedd tri gwahanol gwis wedi ei baratoi ar ein cyfer.

Dyfalu enw'r anifail neu'r person yn yr alawon gwerin oedd ein tasg yn y cwis cyntaf. Llais swynol Brenda Thomas oedd yn hymian yr alawon. Cawsom ein llorio gan un neu ddwy ond ar y cyfan chafodd Brenda ddim mo'i siomi ynom. Neb llai na'n Trefnydd Cenedlaethol, Mair Elfed, oedd y cwis feistr nesaf yn gofyn cwestiynau ar Fudiad Merched y Wawr. Siomwyd mohoni hithau chwaith a'n gwybodaeth drylyw. Yn ein cwis olaf, tywysodd Eleri Rogers ni'n ôl yn hwylus hwyliog i'n plentyndod drwy dudalenau'r Hwiangerddi. Roedd bylchau yn ein gwybodaeth yma ac acw ond henaint ni ddaw...

Noson o frethyn cartref gawsom ni ag ew, roedd hi'n noson dda! Gwelwn ni chi fis Medi.

Catherine Jobbins.


---


Beth am gynnal twmpath gyda'r

TAPLASWYR.

Amryw offerynnau i'ch diddanu<br>
Pleser fydd stepio i'w canu<br>
Llawer o hwyl sy'n eu cwmni<br>
Ac araf a chyflym eu tonau,<br>
Sionc a nwyfus eu dawnsiau.<br>
Wyddoch chi sut i gysylltu?<br>
Ysgrifennwch neu ffoniwch heb oedi<br>
Rhodri Jones, 169, Heol Caerdydd, Dinas Powys. 513282.

# CALON NEWYDD I KEN



Dwi'n siwr ein bod i gyd yn ystod y mis dwetha yma wedi bod yn gwrando'n astud ar aml i fwletin newyddion am hynt Ken Innes o'r Eglwysnewydd. Cen wrth gwrs yw'r Cymro Cymraeg cyntaf i dderbyn calon newydd yn ysbyty enwog Harefield.

Brodor o Ystalyfera yw Ken a bydd y rhan fwyaf ohonom yn cofio amdano fel prifathro ymroddgar yn Nhongwynlais am flynyddoedd ac yn awr yn Radyr.

Yn anffodus ni chafodd fawr o gysur iechyd yn ystod y blynyddoedd dwetha 'ma yn Radyr a threuliodd lawer o'i amser yn ymweld ac ysbytai yma yn y De. Gofid mawr i ni oedd clywed am ei symud i Harefield, ond mae'r gofid yma wedi troi'n llawenydd o wybod ei fod yn gwella mor dda. Deallaf ei fod yn codi bob dydd ac yn mynd allan am dro, ac mae'n debyg iddo edrych ar QPR yn chwarae Spurs ar y teledu - dydd Sadwrn y Cup Final. Doedd dim perygl gormod o gyffro iddo yn y gêm ddiflas honno. Roedd tipyn o siâp peldroediwr arno ei hun flynyddoedd yn ôl fel un o amddiffynwyr i dîm nid anenwog Tŷ'r Cymry Caerdydd yn y pumdegau pan oeddent yn chware'n gyson yn y gynghrair.

Mae Cen yn hoff iawn o ddynwared Ifans y Tryc a phob tro mae'n gwneud hyn mawr ydy'r chwerthin. Rhywbeth fel hyn rwy'n meddwl fyddai gan yr hen Ifans i'w ddweud am antur fawr Ken.

"Ken Innes - cael calon newydd, hwnna ydy o - calon lân yn llawn daioni, yn y Cae Sgwarnog - yr Hare Field! Gwyrth, Miracl - hwnna ydy o medda fi wrth Mrs Ifans cw y nos o'r blaen. "Daw e adra toc" meddai hen ddynas cw.

"Scarsli bilif" meddwn i. Confales mewn Confalesens Hôm - ia hwnna ydy o - ie cyfnod fel Prins of thy Manor cyn troi'n ôl i Manor Wei yn y Wigls Newydd yna - hwnna ydy o - "

Wel brysia wella'n llwyr - dyna'n neges ni holl Ddinasyddion Caerdydd i ti Ken ac edrychwn ymlaen at dy weld nôl yma unwaith eto yn ein plith.

John Albert.

# BETHEL

Fel y gŵyr rhai ohonoch, bu'n rhaid i'r Eglwys Fethodistaidd (neu'r Wesleaid ar lafar gwlad!) gadw at eu traddodiad symudol yn ddiweddar yng Nghaerdydd, ond yn wahanol i'r hen arfer, nid y gweinidog oedd yn symud, ond y gynulleidfa.

Bu'n rhaid symud o'r Bethel gwreiddiol (oedd, gyda llaw, yn Union Street, Paradise Place) ar orchymyn Cyngor y Ddinas, oedd am gael y tir i'w ddatblygu - ar les oedd y tir yn anffodus - ac erbyn hyn, mae o dan rhyw ran o Ganolfan Dewi Sant.

Cawsom lety gyda'r Undodiaid yn West Grove am rhyw dair blynedd - ein gwasanaeth ni'n y bore, gwasanaeth Cymraeg yr Undodiaid yn y prynhawn a gwasanaeth Saesneg yr Undodiaid gyda'r nos - a chawsom groeso a phob cymorth posib yno.

Ond ar ddydd Sul, Mai 9fed, eleni - dyma ni'n symud eto - y tro yma i gapel y Wesleaid Saesneg (Maes y Deri) yn Rhiwbeina. Mae'r lle'n hen gyfarwydd i rieni Cymraeg Rhiwbeina (a'r Eglwysnewydd flynyddoedd yn ôl) oherwydd yn y festri y cynhelir yr Ysgol Feithrin. Rydym yn cyfarfod dipyn cynharach rwan - 9.45 - gan bod y gynulleidfa Saesneg yn ymgynnull am 11.15, ond, os oedd y Sul cyntaf yn argoel o'r hyn sydd i ddod, fe chwyddir y gynulleidfa o symud ardal - cawsom bum ymwelydd - ac yr oeddym yn falch iawn o'u gweld. Ein gweinidog, y Parchedig Martin Evans Jones oedd yn pregethu, a'r plant yn cymryd rhan, wedi i Mrs. Gwen Owen a Mrs. Iola James eu dysgu.

Felly, cofiwch, os ydych yn byw yn y cyffiniau (ac yn medru codi'n fore ar y Sul) bydd croeso i unrhyw un ymuno yn ein gwasanaeth. Enw ein hysgrifenyddes yw Miss Louie Parry, 16 Ty'n y Coed, Rhiwbeina (Ffôn 611709) a chyfeiriad y capel yw: 'Yr Eglwys Fethodistaidd, Maes y Deri (oddi ar Heol y Deri), Rhiwbeina; a'r amser 9.45 a.m.

M.W.Griffiths

# URDD '85

30 CHARGOT ROAD
LLANDAF
CAERDYDD

Mai 26 1982

Annwyl Olygydd

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD
CAERDYDD A'R CYLCH 1985

Tua deufis yn ôl cafwyd manylion yn y DINESYDD am gynllun cyfamodi yr Eisteddfod uchod. Hyd yn hyn, ymatebodd 141 o bobol i'r gwahoddiad i gyfamodi. Gwn fod yna ragor o gyfamodau wedi eu cwbwlhau ond heb fy nghyrraedd i. Yn ychwanegol at y cyfamodau rydym wedi derbyn cyfraniadau o £650 oddiwrth athrawon a dysgwyr Canolfan yr Urdd, Caerdydd. Mae hyn oll, gan gynnwys yr ad-daliad o'r dreth incwm a dderbynnir, yn werth oddeutu £11,000 i'r Eisteddfod, a hynny dair blynedd cyn ei dyfodiad! Maes o law, pan benderfynnir ar sumbol i'r Wyl, byddwn yn argraffu sticeri ceir i hysbysebu'r Eisteddfod, a bwriedir argraffu rhai arbennig ar gyfer cyfamodwyr.
Fe fydd yr ymgyrch yn dod i ben ddiwedd Mehefin, felly, os nad ydych wedi gwneud yn barod, nid yw yn rhy hwyr i gyfamodi.
Erfynnir ar bawb sydd yn bwriadu cyfrannu'n ariannol i'r Eisteddfod wneud hynny trwy gyfamod. Cofiwch! am bob punt a gyfamodir derbynnir 48ceiniog ychwanegol oddiwrth Mrs Thatcher! Cydnabyddir pob cyfraniad yn rhaglen yr Eisteddfod. Yn y cyfamser dyma restr o'r cyfamodwyr hyd yn hyn. Ceir rhestr gyflawn mewn rhifyn diweddarach o'r DINESYDD. Nid oes unrhyw arwyddocad i drefn y rhestr yma ac eithro mai, mwy neu lai, yn y drefn yma y derbynniais i hwy. Diolch i bawb am eu cefnogaeth gwerthfawr.

Gareth Davies
Owain Tudur
Mr a Mrs E Tudno Jones
D Gareth Evans
H E Pritchard Jones
W B Davies
E R Bere
G Lloyd Jones
J Albert a Tegwen Evans
Ann Thomas
Garwyn Davies
J Walter Jones
Robin Gwyndaf
Eirion T Lewis
Hywel ap Robert
Richiard Hall Williams
G Lewis Davies
T Arfon Williams
Mervyn A Jones
Michael Pickthorne
D G Davies
Clive Betts
AP Carter
E Currie Jones
Dyfed a Rachel Glyn Jones
D Huw Owen
Sian Eleri Jenkins
Eleri a Moc Rogers
Robin Jones
Alun Williams
D Bryan Owen
Gwyndaf Owen
Elizabeth Harriet Edwards
Gwenfron Moss
Eva Shirley Whitman
Meredydd Evans
Hywel Gwynfryn
Gareth Lloyd-Williams
Gerwyn Williams
Alun B Oldfield-Davies
Eluned Davies
Petra Llewelyn
Dennis Scott
John Mervyn Williams
Raymond Kenneth Merritt
Barrie L Clement
Catherine Watkin Hughes
Christine Sanders
M Maddy
Gerwyn Watkins
Colin A McNab
Cyril Lewis
Gwilym Roberts
Janine Davies
Elizabeth M Crandon
D L James
John Lewis Davies
William John Pugh
Bob a Jean Whitaker
David Davies
Gillian Grabham
Marilyn Sylvia Fisher

Isabel Joyce Williams
Clive M Nash
Ronald Meirion Grove
C M Jones
E M Anderson
David Bryan James
Helena Moran
David George Price
Paul Donovan
Idwal J Lewis
William Alun Mathias
Myra ac Emyr Jenkins
E A I Evans
W T R a M H Pryce
Nansi Lewis
Thomas Raymond Edwards
Glyn a Gwenda Jones
Elvira A Amos
Eurfryn Thomas
John Elfed Evans
Gwyneth ag Alun Griffiths
Dewi Watkin Powell
Margaret Williams
John Wilson Lloyd
W L Jones
Alun Guy
Mrs J M Cattle
Dafydd Iwan Hampson-Jones
Tudor Owen Williams
Patricia J Davies
Margaret E Morgan
Gwylfa Leckie
Diana Mort
A W O Evans
David Thomas
Eleri Wyn Jones
Mair Price
Lynn Jones
Alwyn Jones
E Ursula Thomas
Alun Treharne
Catherine Jobbins
John M Rees
E Lloyd Jones
Conway Davies
Wyn Gruffydd Roberts
Lyn R Evans
Falmai Griffiths
Alun Thomas
Heulwen A Davies
Ann S Rogers
S Iwan Jones
Malcolm H Bennett
Ahthony J Davies
D Brynmor Williams
Keith W Jones
Nefydd P Thomas
Margaret W Parry
H Geraint Hughes
M Gwyn Griffiths
B D Harries
G Alan Jones

J E Malcolm Thomas
Elinor Wyn
Emyr Byron Hughes
Owen a Shân Edwards
Mair Owen
Michael Tucker
L Piette
Eurig Davies
Eilonwy Jenkins
Einir Wyn Davies
Wyn Thomas
Mair Griffiths
Glyn Evans

Yn ddiffuant

Glyn Jones
Ysgrifennydd Ariannol

---

# Y TAPLASWYR

Menter newydd i aelodau cerddorol Cwmni Dawns Werin Aelwyd Caerdydd yw ffurfio band newydd ar gyfer cynnal twmpathau a thaplasau yng nghyffiniau'r Ddinas. Ers nifer o flynyddoedd bellach bu'r twmpathau a gynhaliwyd dan nawdd y Cwmni Dawns yng Nghlwb Trydan, Pontcanna yn dra llwyddiannus. Erbyn hyn daw rhyw 200 o ddawnswyr i'r clwb yn gyson i droedio ffigurau Clawdd Offa, Ril 16 ac ati. Nawr os oes angen band arnoch chi er mwyn codi elw i'ch cymdeithas a chael dipyn o hwyl anfonwch air ata i:

Rhodri Jones, 169 Heol Caerdydd, Dinas Powys, 513282. Mae'n siwr y bydd hi'n bosib i'r Taplaswyr eich helpu. Cofiwch yr enw 'Y TAPLASWYR'.


CWMNI DAWNS WERIN AELWYD CAERDYDD

GŴYL IFAN

TAPLAS

Neuadd Ysbyty Eglwys Newydd

Nos Sadwrn, 19eg Mehefin

Gwledd a Thaplas 7.30 - 11.30 £4.50

Taplas yn unig 9 - 11.30 £1

BAR HWYR

Tocynnau:
Mrs. Helen Stickler,
57 Thornhill Rd., Caerdydd.
(753179)

# DINESYDD Y PLANT

Mae'r geiriau yma ar goll o fewn y patrwm o lythrennau. Chwiliwch amdanynt, a rhowch linell drwy bob gair sy'n dod i'r amlwg.

| | | |
|---|---|---|
| blawd | cig | ham |
| pys | oren | melon |
| moron | mêl | selsig |
| crempog | mefus | halen |
| cyw | bara | ysgewyll |
| wy | caws | losin |
| cnau | siwgr | madarch |
| cawl | afal | reis |
| cennin | iogwrt | saws |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| t | a | t | w | s | a | h | c | b | r | d | c |
| c | n | a | u | e | l | a | s | m | e | l | e |
| f | a | f | s | n | a | m | e | w | i | y | n |
| g | e | w | e | w | f | g | l | o | s | i | n |
| m | p | r | l | h | a | i | s | u | g | e | i |
| g | o | p | m | e | r | c | i | i | h | c | n |
| b | a | r | a | p | y | s | g | e | w | y | ll |
| r | l | s | o | w | t | w | e | t | m | g | d |
| s | w | a | c | n | a | m | e | l | o | n | r |
| a | d | s | w | p | e | r | n | p | e | h | a |
| w | e | m | a | d | a | r | ch | o | s | r | b |
| s | h | a | l | e | n | t | r | w | g | o | i |

Llongyfarchiadau i BRANWEN ROBERTS enillydd y CYSTADLEUAETH Mae'r gwobr ar y ffordd!




Athro: Twm, Beth oedd dy oed di ddoe?
Twm: Wyth, syr.
Athro: Beth fydd dy oedran ar dy benblwydd nesaf?
Twm: Deg, syr.
Athro: Amhosib!
Twm: Nac ydy. Rydw i'n naw oed heddiw.

Diolch i Meleri Maelor, Bryntaf, am y jôc yna.



Sgwigl



Da Iawn Joni Martin, enillydd y sgwigl

Be sy'n troi heb symud?
Llaeth, pan mae'n troi'n sur.

"A ddylech chi gael cosb am rywbeth nad ydych chi wedi ei wneud, syr?"
"Na, wrth gwrs".
"O, diolch byth am hynny dydw i ddim wedi gwneud fy ngwaith cartref".

Anfonwch eich cyfraniadau atom i:
8 Dorchester Ave., Penylan, Caerdydd.

Cnoc Cnoc
Pwy sydd yna?
Scini.
Scini pwy?
Scini'm syniad.

"Beth yw d'enw di?"
"Sion".
"Dwed 'Syr'".
"O'r gorau, Syr Sion".

Diolch i Owen Saer, Glantaf, am y jôcs yna.

Diolch i blant y ddwy ysgol sydd wedi gwneud cyfraniad. Yn anffodus, dim ond un tudalen sydd gennym.




## Mini rygbi

Diolch yn fawr i'r holl bobol a roddodd eu amser i'n hyfforddi ni ar foreau Sul

Gethin
Sion
Iolo

Taffia Penylan!



Diolch i ti "Gareth Wyn Jones" Glantaf am y lluniau.

PENTYMOR CLWB CYMRIC

Mi fydd yn fis Mehefin cyn i hyn o adroddiad weld golau dydd. Mi fyddwn ar drothwy cystadleuaeth Cwpan y Byd ym maes y beldroed, a hwyrach y bydd y Pâb wedi troedio'r maes peldroed ym Mhontcanna bellach hefyd os na fydd helynt y Malvinas wedi bod yn syrffed ar hyd yn oed y gŵr gwylaidd hwn. Toes yna ddim sicrwydd wrth gwrs y bydd y tri tîm sy'n cynrychioli gwledydd Prydain yn ymddangos yn Sbaen.

Gyda Mai wedi'n gadael, dyma gyfnod cael gwared o'r tymor peldroed yma yng Nghymru, a dechrau ar dymor y dillad gwynion a'r mabolgampau. Tymor pryd y clywir iaith a thermau tra gwahanol, yn ogystal â swn gwahanol wrth i'r lledr daro ar y pren helyg, ac i'r gwn danio i gychwyn râs.

A dyma, wrth gwrs y cyfle i minnau roddi heibio'r malu a'r gwamalu am y bel gron a cheisio dal ati trwy'r haf i gynnal tudalen amrywiol ei gwedd yn cynnwys pob math o chwaraeon a fydd yn cael lle a bri yn y brifddinas. Beth amdani, a oes diddordeb gennych mewn trin a thrafod ar ein tudalen ni, sef eich tudalen chi, unrhyw weithgaredd megis criced, mabolgampau, marchogaeth, nofio, beicio, neu hyd yn oed 'baseball' - sydd yn elfen unigryw bwysig yn y rhan hon o Gymru. Anfonwch eich deunydd ataf i - 4 Maes y Sarn, Parc Bronllwyn, Pentyrch.

Ond wir, cyn colli pen llinyn yn llwyr ar yr hyn sydd agosaf at fy nghalon i, a'r hyn sydd wedi fy ysgogi i ddechrau sgrifennu yn y cychwyn cyntaf, mae 'na ambell i ddarn o hanes y tymor peldroed heb ei gofnodi hyd yma.

Mae 'na fymryn o ddathlu wedi bod yng ngwersyll y ddau dîm ar ddiwedd y tymor oherwydd iddynt lwyddo i gadw eu lle yn yr Adrannau presennol am y tymor nesaf hefyd. Brwydr glos iawn fu un yr Ail dîm, a dim ond o drwch blewyn a buddugoliaeth yn eu dwy gêm olaf y sicrhawyd hynny. (Yn wahanol iawn i dynged timau peldroed Dinas Caerdydd a Wrecsam a fydd ill dau yn cadw cwmni i Gasnewydd yn y Drydedd Adran o hyn allan).

Cafwyd buddugoliaeth arbennig o 4 gôl i 2 yn erbyn y pencampwyr, Grange Boys Club, gyda Ken Passmore, Der a Richard Parsons (2) yn rhwydo i selio'r pwyntiau. Yn y gêm olaf dyngedfennol yn erbyn Toriaid Cathays roedd trafferthion lu yn gwynebu'r bechgyn - dwy gôl i ddim ar ôl a Bags yn poeri bygythiadau i bob cyfeiriad posibl megis neidr wenwynig, ond dyna sgorio tair gôl fendigedig trwy sgidiau Aled, Der a Mel i ennill y gêm o 3 gol i 2. Dyma'r record felly ar ddiwedd y tymor:

Chwarae 20 Ennill 7
Cyfartal 1 Colli 12
Goliau: O blaid 42
Yn erbyn 76
Pwyntiau 15

Roedd gan y tîm cyntaf dair gêm yn wythnos olaf y tymor - y gyntaf yn erbyn y duon o'r Bute - y rhain y credid eu bod wedi dod yn syth o'r cwch bananas o Ddociau'r Barri yn gymysg a'r ffrwythau. Cicio, rhegi, ysgyrnygu dannedd, cnoi, crafu, twlcio, yn wir popeth a deimlent fel ei wneud. Ac i roi halen yn y briw, cawsant bedair gôl i'r un i Glwb Cymric.

Roedd yr ail gêm yn erbyn Gwaelod y Garth gydag Elwyn Roberts (o'r smotyn gwyn), Wyn a Rhodri'n sgorio i sicrhau buddugoliaeth gyfforddus o 3 gôl i 1. Ymlaen at y gêm olaf o'r tymor yn erbyn Grange FC, ac er i'r gwrthwynebwyr sgorio dair gwaith, y sgôr ar y terfyn oedd 5 gôl i 3 i'r Cymric gyda Wyn, Rheon a Rhodri (3) yn rhwydo.
A'r ystadegau -
Chwarae 26 Ennill 8
Cyfartal 7 Colli 11
Goliau: O blaid 41
Yn erbyn 54
Pwyntiau 23

Yn ogystal â'r chwarae cafwyd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i ethol swyddogion. Y swyddogion newydd i weithredu am y tymor nesaf fydd fel a ganlyn:
Cadeirydd: Rhys Fôn Ifans
Ysgrifennydd yr Ail Dîm: Huw Eurig
Ysgrifennydd y Tîm Cyntaf: Eynon Williams
Trysorydd: Peredur(Pwt) Efans

Capten: (1af) Dewi Huws
(2il) Alwyn(Bags) Gruffydd

Is-Gapten: (1af) Wyn Roberts
(2il) Mel Hopkin

Yn nhafarn y 'Master Gunners' yn Gabalfa y cynhaliwyd y Cinio Blynyddol eleni ar nos Sadwrn, Mai 15fed. Dyma un o'r adegau prin rheini pan mae'r gwragedd yn cael ymuno yng ngweithgareddau'r Clwb heblaw am olchi a sychu'r crysau peldroed, a dyma'r adeg hefyd pryd y bydd chwaraewyr y Clwb yn anrhydeddu eu dewis o chwaraewr y flwyddyn. Braint fawr felly oedd gweld cyflwyno y tariannau eleni i ddau oedd wedi rhoi gwasanaeth clodwiw i'r Clwb yn eu gwahanol ffyrdd - y ddau yn chwaraewyr medrus yn eu dull eu hunain - yr unig wahaniaeth yn wir yw eu hoedran (mae un bron ugain mlynedd yn hŷn na'r llall!).

Teyrnged felly oedd dewis Cen Cartŵn yn Seren y Clwb ar ran yr Ail dîm - teyrnged yn wir i'w wasanaeth i'r gêm a'i ddyfalbarhad, i'w ffyddlondeb a'i barodrwydd. Pleser oedd cyhoeddi enw Hefin Rowlands yn Seren y tîm cyntaf - y gŵr gwylaidd hwn sydd a chalon o ddur pan yn lliwiau'r Clwb, ac yn mynnu rhoi o'i orau bob amser. Roedd cyflwyniad arbennig hefyd i chwaraewr sydd ar fin ymddeol o'r gêm (plis) sef Rhys Fôn. Arwydd eto o werthfawrogiad cyn-chwaraewyr i aelod gweithgar dros gyfnod o 10 mlynedd oedd cyflwyno tarian iddo i nodi'r achlysur "Er cof am y bêl gron".

Yn olaf, diolch i bawb a fu'n chwarae yn ystod y tymor, hebddoch chi........

Rhodri Gwyn Jones.



RYGBI MELIN GRUFFYDD

Wedi rhannu Ysgol Bryntaf yn bedair ysgol, daeth cyfle i sefydlu tîm rygbi Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd a manteisio ar gyfleusterau ardderchog yr ysgol i gynnal ymarfer â gemau.

Roedd brwdfrydedd ymhlith y disgyblion o'r cychwyn ond bu'n rhaid ymladd yn galed cyn cael cofnod o fuddugoliaeth - er i honno daro yn y gêm gynghrair gyntaf i'w chwarae yn erbyn Ysgol Gynradd Stacey Road. Cafwyd chwarae cyson wedyn trwy'r tymor hyd y Nadolig gydag ambell i fuddugoliaeth arall tu cefn iddynt yn brawf o'u hymroddiad i'r gêm. Aeth pethau'n well yn yr ail hanner a llwyddwyd i sicrhau ail safle yng Nghynghrair Gorllewin Caerdydd ar ben tymor. Cafwyd llwyddiant unigol hefyd ar y maes a dewiswyd Geraint Harries i gynrychioli tîm bechgyn ysgol Caerdydd (dan 12 oed). Roedd yn eilydd i'r tîm a chwaraeodd ar Barc yr Arfau cyn rownd derfynol Cwpan Undeb Rygbi Cymru eleni.

Braf yw cofnodi diolchgarwch yr hyfforddwr i'r rhieni fu'n cefnogi'r tîm trwy'r tymor, ac hefyd i Billy Raybould am ei gynorthwy gan rannu o'i brofiad helaeth yn y gêm.

Huw Prys Jenkins.

BEICIO I BARNADO

Pan ddaeth yr erthygl gyntaf allan yn yr 'Echo' yn disgrifio taith o hanner can milltir ar feic at bwrpas o godi arian at Gartrefi Barnado, llenwais y ffurflen gais am ddau reswm - yn gyntaf, her oddi wrth Guto - 15 oed (rydw i dros 15!) ac yn ail hoffi'r syniad o godi arian at rywbeth hollol wahanol i'r achosion arferol (Bryntaf, Glantaf, Llanhari, Dinesydd....!) ond eto yn llawn mor bwysig.

Roedd disgrifiad o'r daith ar bapur yn swnio'n ddiddorol iawn. Dechrau o Rhodfa Brenin Edward V11 yng nghanol y ddinas ac anelu tua'r Fro trwy Gabalfa, Trelai a Culverhouse Cross. Ymlaen ar hyd yr A48 drwy Sain Nicolas a Thresimwn, heibio'r mast teledu ac ar hyd ffordd osgoi y Bontfaen. Trwy Bentremeurig, Brocastell a chroesi'r traciau tren sy'n croesi'r ffordd o ffatri newydd Ford cyn cyrraedd ymylon Penybont ar Ogwr. Troi i'r chwith ar y ddwy tro-gylch nesaf, gadael y A48 a chychwyn y ffordd nôl trwy Ewenni a Saint y brid. Mae'r rhan yma o'r daith yn mynd drwy rai o'r ardaloedd mwyaf prydferth y Fro. Symud ymlaen drwy Y Wig, Llanilltud Fawr, Sain Tathan, Y Rhŵs a'r Barri. Troi i'r dde ar hyd ffordd newydd y Dociau a chyrraedd Sili a Phenarth. Yna Lecwydd, Heol Penarth a fyny drwy'r Hays cyn gorffen yn yr un man a'r dechrau.

Bu bron i mi dynnu'n nôl pan sylweddolais fod yn rhaid cyrraedd y man dechrau rhwng chwech a hanner awr wedi chwech y bore a'r daith yn cychwyn am saith o'r gloch! Ond yr oedd yn rhy ddiweddar; roeddwn wedi talu ac fel pob Cardi, nid hawdd yw gwastraffu arian.

Daeth y diwrnod yn llawer rhy gloi, roeddwn wedi meddwl ymarfer ond heb gael amser ac hefyd yn dechrau sylweddoli fod coesau crwt pymtheg oed yn dipyn cryfach



na choesau'i dad. Roedd y cloc larwm yn swnio'n bell iawn am bump o'r gloch - ie, pump o'r gloch y bore Sul hwnnw (ar fore Sul cynhaliwyd y daith ac mae'n debyg mae'r rheswm am ddechrau mor gynnar oedd er mwyn i'r Capelwyr yn ein plith fod nôl yn ddigon cynnar i fynd i'r Ysgol Sul).

Bu yn ymdrech deuluol mewn ffordd, Mair yn codi gyda ni a pharatoi anferth o frecwast a Siôn wedi addo tynnu llun o'r dechrau er mwyn profi ein bod wedi dechrau ta pun. Yr oedd yn dawel iawn ym Mhenylan ychydig cyn chwech - rhai mae'n siwr newydd fynd i'w gwelyau ar ôl y noson cynt - ond o amgylch Neuadd y Ddinas, roedd yna awyrgylch brysur. Dynion a menywod o bob siâp ar gefn beics o bob math - un 'pennyfarthing' hyd yn oed. Beics yn cael eu dadglymu oddi ar do ceir; beics yn cael eu tynnu allan o geir a rhai yn rhoi beics at ei gilydd ar ochr y ffordd a'r holl olygfa yn fyw gyda dillad lliwgar y beicwyr.

Pob canmoliaeth i'r trefnwyr am gael dros fil ohonon ni mewn trefn erbyn y cychwyn am saith o'r gloch - a bant a ni! Mae'n rhaid cyfaddef fy mod yn mwynhau'r profiad yn fawr iawn - hyd at gyrraedd top rhiw Y Tymbl! Ar ôl ryw bum milltir yr oeddwn wedi cael digon ac yn barod i roi fyny. Allan o wynt a'r coesau fel plwm. Ond roedd Guto a'i ffrind, Edward, wedi aros, felly roedd yn rhaid rhoi gwyneb dewr a chario ymlaen - rywsut!

Fedrai ddim disgrifio prydferthwch y Fro y bore hwnnw oherwydd nid wyf yn cofio llawer ac wedi gweld llai am weddill y daith, y peth pwysicaf yn fy meddwl oedd cadw'r coesau i droi a dilyn y bois.

Ni fum mor falch erioed a chyrraedd nôl i'r ddinas a chroesi'r llinell ger y Swyddfa Gymreig ryw dair awr a phum munud ar ôl cychwyn. Teimlo'n eitha plês ar ôl cwpaned o goffi a brechdan ac yn cymryd dim sylw o'r bois yn gweithio allan pa mor gyflym y byddent wedi mynd o amgylch heb Dad!

Er fod y coesau yn wan am ddyddiau a dim rhyw lawer o bleser i eistedd, mae'n codi'r galon wrth gofio ein bod wedi cyfrannu ychydig at gostau Barnados yn Ne Cymru. Mae yna ryw 300 o blant a 50 o deuluoedd yn yr ardal yn cael cymorth bob blwyddyn. Mae ganddynt gartref i blant rhwng 8 a 16 yng Nghasnewydd; hostel i bobl ifanc rhwng 16 a 18 yng Nghaerdydd a chanolfan ddyddiol yn Hendrefadeg ger Tylorstown.

Diolch yn fawr iawn i bawb am eich cefnogaeth.

Emyr Davies.

## COLOFN
### Shân Emlyn

Prynu a gwerthu tŷ oedd 'y myrdwn i ddeufis yn ôl. Wyddoch chi be, dwi'n dal i llnau a thacluso a thywys pobol o gwmpas Coed y Pry. Tydio ddim yn deimlad braf bod cynifer wedi trampio drwy'r lle a neb â'r diddordeb lleia yn 'i brynu, a finna'n meddwl bod gen i le bach del!

Ond o leia, mae gennym dŷ newydd braf. Mae'r hen KCC a finna'n ôl a blaen yno droeon y dydd i weld y gwaith yn dod yn 'i flaen. Mi ryda ni wedi cael sawl tro trwstan ac wedi gwneud pethau gwirion - y drol o flaen y ceffyl bob cynnig. Y paentiwrs ddaeth gynta, pan oedda nhw ar fin gorffen dyma ddarganfod bod raid ail weirio'r lle ac ymddangosodd byddin o drydanwyr. Yr adeiladwyr oedd yr ola i gyrraedd i ail wampio'r gegin. Yn fy niniweidrwydd meddyliais ond imi gau'r drysau na fyddai 'na lanast. Ond och! Draw a fi un pnawn a chymryd golwg ar f'ystafell fwyta ddyc eg blŵ ddel a be welwn i yn y gornel ond twll sgwar i mewn i'r gegin! Mae'n debyg bod raid cael distiau dur i ddal to y gegin tra bo wal yn cael ei dymchwel a bu raid i un o'r distiau fynd drwy wal yr ystafell fwyta!

Penderfynnodd Mari ei bod am gael llofft lliw apricot er taer erfyn arni i gael glas. Mi wyddwn na fuaswn i yn hoffi'r lliw, ond wyddoch chi be - tynnu gwyneb ddaru Mari ar ôl gweld y llofft yn apricot i gyd. Doedd o fawr o help bod 'na glamp o goeden geirios flodeuog wrth y ffenest a honno'n llawn o flodau pinc! Bu raid gofyn i'r paentiwrs newid yr apricot i bêl blŵ 'r un fath a'n llofft ni!

Trwy gydol yr wsnosa dwytha 'ma rydwi wedi bod yn mynd drwy'r tŷ efo bwcad, mop a chadach llawr yn golchi'r lloriau efo fy Edwards mixture - powdwr golchi, joch o Jiff, joch o fleach, joch o Handy Andy, Clean O' Pine ac unrhyw beth arall sydd wrth law. Mae'n syndod bod gen i ddwylo heb sôn am loriau. Pres a chopor ydy dwrn a chlo pob drws drwy'r tŷ ond i bod nhw wedi duo i gyd. Efo eli penelin a HP sauce, ia, wir yr, mae nhw i gyd yn disgleirio erbyn hyn.

Rydwi am gymryd sbel tan ar ôl Steddfod yr Urdd, achos mi fydd raid ail llnau'r lle o'r top i'r gwaelod eto, a chael plwc i alw'r paentiwrs yn ôl i ail wneud ambell gornel. Wyddwn i ddim fy mod i mor dwp. Os oes rhai ohonoch ar fin mudo - byddwch yn gallach na fi!

GENEDIGAETH

Dymuna Adrian a Gaenor Taffinder gyhoeddi genedigaeth mab, Gareth Rhys, ar Ebrill 26ain. Dyma frawd bach i Rhiannon Siân ac ŵyr i Dr. a Mrs. J.D.R.Thomas, 8 Egremont Rd.

Llongyfarchiadau i Billy Raybould ar gael i benodi yn Bennaeth yr Uned Iaith yn Nhrefforest. Bydd yn dechrau ar ei waith newydd ym mis Medi.

O GANADA I GAERDYDD I GAERFYRDDIN

Bu Jane Thomas (Sharpe) yn Swyddog Marchnata yn Theatr y Sherman ers tair blynedd bellach a mawr fu ei dylanwad ar yr arlwy o gynyrchiadau Cymraeg a Chymreig a lwyfanwyd yno.

A theimladau cymysg y llongyfarchwn Jane ar ei phenodiad yr wythnos hon yn Swyddog Hysbysrwydd a Marchnata i Gyngor y Celfyddydau yng Ngorllewin Cymru. Bydd Jane yn gadael y brifddinas i ddechrau ei swydd newydd tua chanol mis Mehefin. Anfonwn ein dymuniadau gorau iddi gan ddiolch am ei chyfraniad brwd mewn llawer cymdeithas yma yng Nghaerdydd.

Llongyfarchiadau hefyd i Geraint Huws ar ei benodiad yn Swyddog Ymchwil yn yr Uned Iaith. Ar hyn o bryd mae'n Bennaeth yr Adran Gymraeg yn Ysgol Y Bontfaen.

## Y GOLOFN GAIN gan ARFON

Mae'n debyg mai gair Ioloaidd yw Alban Hefin ac, er fy mod yn ei hoffi'n fawr, gwell ei osgoi efallai. Dyna a wnaeth John Wood wrth ganu'r cywydd isod, ac mae gennyf barch i gywirdeb ei ddefnydd ef o'i iaith fabwysiedig. Diolch iddo am ei gyfraniad tymhorol iawn i'r golofn y mis hwn.

DIWRNOD HWYAF Y FLWYDDYN

Af, am haf, ym Mehefin,
I ddal gwres ei ddeiliog rin
Dan ysgawen lawen liw
A ddwg craidd y creu heddiw;
Rhydd ei blodau, moethau mêl,
Arlwy wych i'r ŵyl uchel
Pan fo hiraf dyfnaf dydd
Rymusaf ar y meysydd.
Cerrig garw Côr y Cewri
Sydd a braint hen swydd a'i bri;
Teml astrus a ddengys, ddydd
Hirganol, wawr o gynydd;
Mae'r ysgawen - goeden gain
Â'r reddf na fedd arwyddfain -
Hefyd yn symud i'w swydd,
A'r awr pan ddyry arwydd;
O'r holl goed a roed â rhin
Eu bri ir i bererin,
Hi, o'r rhelyw, yw'r olaf
A dry i flodeuo'r haf.
Er y golled sydd wedyn
Erys y cof gwresog gwyn
Am anterth ei phrydferthwch
Fu'n llanw cyn ffoi'r haf yn llwch.

John Wood.

Daliwch i anfon eich cerddi ataf. Y cyfeiriad yw 'Penmaen', 31, Heol Don, Yr Eglwysnewydd.

# O'R LLWYFAN

GWEU BABIS

Gresyn mai dim ond rhyw gant o gynulleidfa oedd yn Theatr y Sherman nos Sul Mai 9 i weld dwy ddrama - "Cyn Cychwyn" a "Gweu Babis". Dwy gomedi syml eu cynllun, yr iaith yn iaith bob dydd a braidd yn fratiog ond yn gweddu i'r cymeriadau oeddynt. Petai mwy o gynulleidfa byddai mwy o chwerthin a byddai gwaith y perfformwyr wedi bod yn haws.

Pedwar cymeriad yn paratoi i fynd i wneud cabaret mewn clwb nos oedd y ddrama gyntaf, y cyflwynydd, cantores, canwr a chomedianne. Ond ar wahan i'r pedwar hyn roeddynt yn cymryd rhan tua saith o gymeriadau eraill hefyd, ac roedd y ffordd y newidiant o un cymeriad i'r llall yn fedrus a chredadwy iawn. Ceir cryn wrthdaro rhwng y canwr a'r cyflwynydd sy'n bywiogi'r ddrama, ac roedd y caneuon yn ddoniol ar adegau. Un o'r golygfeydd mwyaf digri oedd yr un o'r dynion yn chwarae rhan y merched glanhau a'r symudiadau hefo'r mopiau llawr yn effeithiol iawn. Ni chredaf iddynt lwyddo yn y diwedd pan ddaeth y pedwar ymlaen i ganu am i bawb fod yn llawen gan edrych yn hollol drist a'u symudiadau yn fecanyddol hollol. Gwrth uchafbwynt oedd hyn i'r ddrama "Cyn Cychwyn" yn gwneud i chi deimlo nad oeddynt wedi cyrraedd i unman.

Yn y ddrama "Gweu Babis" rhanwyd y llwyfan yn ddwy olygfa o ddau fflat; un i'r merched a'r llall i'r dynion. Mae'r ddwy ferch yn hollol wahanol i'w gilydd, Marilyn yn hardd a ffasiynol a Nia yn blaen ac yn hoff o astudio ei llyfrau. Felly'r ddau ddyn hefyd. Peter yn olygus a Neil yn hen ffasiwn ac yn ei chael hi'n anodd i fynegi ei hun. Trwy gymorth 'compiwtor' yn trefnu i gariadon gyfarfod ac yn ddiarwybod i'r naill a'r llall, mae Neil a Nia yn cael neges trwy'r post i gwrdd â'i gilydd. Wedi cyfarfod unwaith maent yn penderfynu mynd allan mewn pedwarawd. Pan ddaw'r pedwar wyneb yn wyneb mae'n dipyn o sioc. Roedd y llwyfannu'n effeithiol a diffys. Nid oeddwn yn meddwl fod y ddrama hon mor ddoniol a'r gyntaf ar wahan i gampau Neil yn gwisgo i fyny fel 'Punk'.

Nid oedd dim yn ffurfiol yn y cyflwyniadau hyn. Roedd y cymeriadau yn siarad weithiau â'r chwaraewr piano yn y ddrama gyntaf; hefyd hwy oedd yn symud y dodrefn o gwmpas y llwyfan a hynny yn hollol naturiol a diffws.

Mi wnes i fwynhau'r perfformiad yn fawr ond credaf y byddai gwell hwyl petai'r tŷ wedi bod yn llawn ac felly'n fwy parod i chwerthin.

Nerys Wyn Williams.

SHARON MORGAN, GWYN PARRY, CLIVE ROBERTS yn

DIWEDD Y SAITHDEGAU

gan Gareth Miles

Cyfarwyddwr: GRUFFUDD JONES

sgwar sgwar sgwar sgwar sgwar 1

THEATR ARENA Y SHERMAN

7-9 Mehefin, 8.00 p.m.

Tocynnau: £2.00

Noson Gyntaf: 2 am 1

Swyddfa Docynnau: Caerdydd 30451

GŴYL YSGOLION CYMRAEG CAERDYDD 1982

Nos Wener, Gorff 9 DISGO

Dydd Sadwrn, Gorff 10 GORYMDAITH

Dylid anfon holl ddeunydd ar gyfer rhifyn Gorffennaf at Mrs. N. Couch, 2, Crystal Glen, Y Mynydd Bychan, Caerdydd (753625) erbyn Mehefin 17eg.

Carai'r Dinesydd ddiolch i Gymdeithas Celfyddydau Deddwyrain Cymru am ei chefnogaeth ariannol tuag at y rhifyn hwn.

DOCTOR AR EI WAETHAF

Gyda'r ddrama hon y perfformiodd Cwmni'r Gadwyn eu cyflwyniad cyntaf, sef cyfieithiad Saunders Lewis o waith y Ffrancwr, Moliere, wedi ei chynhyrchu gan Emyr Edwards.

Comedi o'r 17eg ganrif ydyw, wedi ei selio mae'n debyg ar un o hen chwedlau gwlad neu bantomeim y 'Commedia del 'Arte ' a oedd yn boblogaidd ym Mharis yn nyddiau ieuenctid Moliere. Yn wir fel patomeim yr ysgrifennodd Moliere y ddrama i gychwyn o dan y teitl 'Le Fagotier' (Y Torrwr Coed).

Roedd y noson agoriadol yn un hwyliog a difyr, y stiwdio ddrama yn Ysgol Radyr yn rhwydd lawn, a'r gynulleidfa ar derfyn yr orig wedi cael mwynhad llwyr.

Cafwyd actio grymus gan pob aelod o'r cast o'r ffrae gyntaf hyd y ffrae olaf rhwng y torrwr coed, Sganarelle (John Owen) a Mortine, ei wraig (Marian Ifans). Ar ddamwain croesir eu llwybr gan ddau o weision yr uchelwr Geronte (Robin Jones), sy'n chwilio am feddyg i wella ei ferch o'i mudandod. Trwy dwyll credant fod Sganarelle yn 'ddoctor' ac aiff i balas yr uchelwr at y claf. Cyn hir fe ddarganfydda beth yw clefyd y ferch - cariad at wr nad yw ei thad am iddi ei briodi oherwydd nad oes digon o arian ganddo. Trwy fwy o dwyll llwydda'r 'doctor' i unioni'r cam ac aiff y ffraeo rhyngddo ef a'i wraig ymlaen unwaith yn rhagor.

Crewyd portread cofiadwy o Sganarelle - ei wyneb, ei dafod, ei lygaid, ei stumiau, yn manteisio ar bob cyfle i gyfleu'r doniolwch y buasai Moliere yn dymuno ei weld yn y cymeriad.

Roedd y gwisgoedd a'r coluro yn effeithiol dros ben hefyd, a chafwyd asio'r sain a'r goleuadau, y set a'r cynhyrchu yn ddidramgwydd.

Llongyfarchiadau i'r Cwmni ar ei enedigaeth a'i fedydd, a bydd disgwyl yn eiddgar am y cynhyrchiad nesaf.

Rhodri Gwyn Jones.

## Y NANT YN "FYW" UNWAITH ETO

Ie "Byw fyddi Nantgwrtheyrn" meddai'r gân, ac yn wir mae yna fywyd unwaith eto yn yr hen bentref annwyl hwn. Ar ôl blynyddoedd o gael ei adael ar drugaredd stormydd Llŷn - bellach mae'r lle yn dechrau cael ei ddefnyddio fel Canolfan Iaith. Mae yna nifer o gyrsiau wedi eu cynnal yno bellach ers i'r uned gyntaf ei hagor adeg y Pasg. Mae'r uned hon yn wirioneddol gyfforddus a chlyd er mai dim ond lle i ddeg o bobl sy ynddi. Bydd yr ail uned yn agor cyn diwedd y mis a llawer o waith wedi ei wneud ar y drydedd a'r a'r bedwaredd uned. Bydd lle yno wedyn i rhyw 35 o bobl.

Mae yna lawer o waith gwych yn cael ei wneud dros Gymru gyfan i godi arian ar hyn o bryd ac mae yna ymgyrch ar droed ymhlith y papurau bro i noddi tŷ. Mr. Alwyn Griffith o Edern sy'n ymgyrchu'n galed i geisio cael yr 50 papur bro i godi £7,000. Dydy e ddim yn llawer rhwng cymaint o bapurau. Tybed a fydd y Dinesydd tlawd yn ymuno yn yr ymgyrch. Os oes gan y papur ddiddordeb byddwn yn hapus iawn i glywed oddi wrthych. Mae angen swm sylweddol ond pe baem i gyd ond yn gwneud ychydig fe fyddem yn fuan iawn mewn sefyllfa i ddweud fod y Nant yn llawn bywyd unwaith eto. Gyda chymaint o bentrefi cefn gwlad yn marw ar eu traed beth am i ni ymuno â dweud "Ni chaiff y pentref hwn farw beth bynnag".

Dyma lun o ran o'r pentref ar hyn o bryd. Os na fyddwn yn wyliadwrus fe fydd yna nifer o bentrefi yn y cyflwr hwn cyn bo hir neu wedi eu troi yn rhesi o dai haf i'r Saeson. P'un sy waethaf dwedwch? Os am gynnig cymorth cysylltwch â mi - bydd pob help yn dra derbyniol.

John Albert Evans,
Is-Gadeirydd.

## CLWB CINIO MERCHED CAERDYDD

Cynhaliwyd cyfarfod ola'r tymor hwn yng Ngwesty'r Thatchers, Llanishen, nos Iau, Mai 13eg.

Ein gwestai oedd Jen Francis, perchennog 'Siop Jen' ym Mhontcanna. Roedd ei sgwrs ddiddorol, gartrefol yn sôn am yr amrywiaeth newydd o wlan a phatrymau sydd ar gael. Daeth ag enghreifftiau o'i gwaith ei hun - yn gynlluniau trawiadol iawn.

Dyma gyfarfod olaf Mrs. Vera Davies fel Llywydd a Mrs. Mair Evans fel Ysgrifennydd. Diolchwyd i'r ddwy am eu gwasanaeth. Mrs. Heulwen Jones fydd wrth y llyw y flwyddyn nesaf gyda Hazel Doull yn Drysorydd a Doreen Thomas a Mari Price yn Ysgrifenyddesau.

Mari Price

## BYD Y BOL

FONTANA DE TREVI, SGWAR SAN IOAN.

Mae'r tŷ bwyta Eidalaidd hwn wedi hen ennill ei blwyf fel lle glanwedd a safonol i fynd am bryd o fwyd ynghanol prysurdeb y ddinas. Fe'i crybwyllwyd eisioes gan Egon Ronay, ond does dim bwyd fel mynd i'r lle i farnu trosoch eich hun.

Fel y byddech yn disgwyl, maent yn arbenigo mewn amrywiaeth dda o pizzas, ond ceir dewis helaeth o fwydydd eraill ar y fwydlen. Ond sylwasom mai pizza oedd y fargen orau. Pizza amdani felly! ond bu'n rhaid aros bron i chwarter awr amdano ar ôl rhoi'r archeb. Roedd yn werth aros, ac mewn gwirionedd, nid oedd aros yn y awyrgylch cysurus a lledrithiol hwnnw yn dreth o gwbl, er na fyddai'r gerddoriaeth Eidalaidd wedi bod ar ddant pawb, mae'n debyg.

Dilynwyd y pizza ardderchog gan salad ffrwythau a hufen. Roedd hwnnw'n ffres ac oer, gydag amrywiaeth ddiddorol o ffrwythau, gan gynnwys mefus. Cawsom hefyd botel o win y tŷ. Gwin gwyn ddewisom ni. Roedd hwnnw'n felys ac oer ac roedd digon ohono rhwng dau. Llawn cystal hefyd - nid yw eu gwin yn rhad!

Roedd y gwasanaeth at ei gilydd yn gyfeillgar ac effeithiol, er na chymerwyd y desglau pwdin oddi ar y bwrdd wrth ddod â choffi.

Costiodd y pryd uchod ychydig dros £8 rhwng dau ohonom - pris rhesymol iawn am bryd da mewn awyrgylch hamddenol a dirwysg.

Gobeithia'r Dinesydd gymryd golwg ar rai o dai bwyta eraill Caerdydd yn ystod y misoedd nesaf. Y tro nesaf yr ewch chi allan a chael pryd o fwyd i'w gofio (am ba reswm bynnag) beth am adael inni wybod sut flas gawsoch chi ar bethau!

Aled Islwyn.


HTV CYMRU

**Ysgrifennyddes/ Ysgrifennydd**

Mae arnom angen ysgrifennyddes/ysgrifennydd i weitho i'r Rheolwr Cynorthwyol sy'n gyfrifol am raglenni newyddion, materion cyfoes, chwaraeon, addysg a rhaglenni cymdeithasol. Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus brofiad o weithio ar lefel ysgrifennyddol uwch, gyda hunan-hyder a'r gallu i weithio dan bwysau ar ei liwt ei hun.

Dylai ef neu hi fod nid yn unig yn meddu safon uchel ysgrifennyddol, ond hefyd fod â gwybodaeth drlwyr o Gymraeg a Saesneg.

Cyflog £6,036 y flwyddyn yn cynnwys atodiadau. Cyfleusterau gwaith ardderchog.

**Dylai'r ymgeiswyr cymwys ysgrifennu gan amgau manylion personol a gyrfaol llawn, gan nodi cyfeirnod DI/62 at: Y Rheolwr Staffio, HTV Cymru, Y Ganolfan Deledu, Caerdydd. CF1 9XL.**

# O'R SEDD GEFN

FFILMIAU - dan ofal Ioan Kidd

Er gwaetha'r crebachu a fu ar sinemâu Caerdydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae gan y brifddinas fwy o neuaddau pictiwrs nag unrhyw dref neu bentref arall drwy'r wlad - a da o beth yw hynny. Ond yn bwysicach na'r nifer, efallai, yw'r amrywiaeth - o'r ABC a'r Odeon ynghanol y ddinas i'r Globe a'r Monico yn y maestrefi a'r sinemâu llai amlwg ond mwy arbenigol megis Chapter, y Sherman....a'r Tywysog Cymru!

O hyn ymlaen bwriada'r DINESYDD gydnabod yr elfen bwysig yma o fywyd y ddinas trwy fwrw golwg ar rai o'r ffilmiau a ddaw i Gaerdydd bob mis.

Dechrau teilwng i golofn newydd o'r fath fyddai trafod dwy ffilm a fu'n fuddugol yn ddiweddar yng ngwobrwyon Oscar. Y gyntaf yw ON GOLDEN POND (Mark Rydell). Ar un olwg, stori syml iawn sydd i'r ffilm hon. Stori yw hi am hen ŵr (Henry Fonda) a hen wraig (Katherine Hepburn) yn treulio'r haf - eu haf olaf gyda'i gilydd o bosib - yn eu tŷ haf ar lan llyn anferth ynghanol y mynyddoedd. Mae'r hen ŵr ar drothwy ei benblwydd yn 80 oed ac i ddathlu ei benblwydd dyma'i ferch (Jane Fonda) - ydy, mae'n chwarae rhan ei ferch yn y ffilm hefyd! - yn dod gyda'i chariad (Dabney Coleman) a Billy (Doug McKeon), mab ei chariad, llanc 13 blwydd oed, i dalu gwrogaeth i'r hen ddyn. Yn syth ar ôl cyrraedd bron

mae'r ferch a'i chariad yn mynd i ffwrdd ar eu gwyliau i Ewrop gan adael y llanc gyda'r hen ŵr a gwraig a chan roi cyfle pert i'r hen ŵr roi tipyn o addysg i'r llanc, yn y dull nodweddiadol Americanaidd, ar sut i ymgodymu â byw yn y wlad.

Dyma'r cefndir, felly - hen ŵr a hen wraig, llanc ifanc dinesig a maes chwarae cymaint â Pharc Cenedlaethol Eryri o leiaf! Darlun delfrydol a digon Disneyaidd ar un olwg ond darlun annheg iawn hefyd os dibynnwn ar grynodeb tenau fel hwn, oherwydd fframwaith yn unig yw'r stori i neges sy'n ddyfnach o lawer. Y pwnc dan sylw yw byrhoedledd bywyd a'r thema oesol o geisio chwarae mig ag angau, gan lwyddo yn yr achos yma, am y tro beth bynnag. Perthynas y tri phrif gymeriad â'i gilydd yw craidd y ffilm gyda'r pwyslais ar ieuenctid y llanc ar y naill law o'i gymharu â henaint y gŵr a'r wraig ar y llall.

Achubir y ffilm rhag sentimentaliaeth y darlun Disneyaidd gan y thema lenyddol hon ac yn enwedig gan yr hiwmor di-dor sy'n rhedeg trwyddi. Caiff y ffilm ei hachub hefyd gan berfformiadau Fonda (hŷn) Hepburn ac yn wir McKeon.

Nid yw'r ffilm heb ei beiau ond mae'n ddifyr a doniol ac yn ceisio ymdrin â phwnc difrifol heb golli'i gafael ar gynildeb.

Pwnc difrifol sy'n cael ei drafod yn REDS (Warren Beatty), ond yn wahanol i'r ffilm flaenorol seilir y cyfan yn yr achos yma ar ddigwyddiadau hanesyddol. Yn ogystal â hynny, mae REDS o bosib yn llai ffuantus a neis-neis na'r llall ac ni cheir ynddi gymaint o ddylanwad Hollywood. Warren Beatty sy'n gyfrifol am fodolaeth llawer o'r ffilm, yn wir, bu craidd y stori yn obsesiwn ganddo ers blynyddoedd. Ysgrifennwyd a chynhyrchwyd y ffilm ganddo ac ef sy'n gyfrifol am ei chyfarwyddo hefyd. Mae ei obsesiwn â'r stori yn ei amlygu ei hun trwy gydol y ffilm oherwydd ceir ynddi ôl gofal a diffuantrwydd mawr.

Sôn a wna'r ffilm am y Chwyldro Rwsiaidd ac am ran Americanwr o'r enw John Reed (Warren Beatty) yn ei ffurfiant. Newyddiadurwr adain-chwith yw Reed, yn areithiwr dawnus ac yn bleidiwr brwd i achos y dosbarth gweithiol. Yn fuan yn y ffilm mae Reed yn cwrdd â newyddiadurwraig ddwys a sobr o'r enw Louise Bryant (Diane Keaton). Cyn bo hir caiff Miss Bryant ei chyflwyno i ddeallusion a phwysigion cylch gwleidyddol Reed ac yn eu plith mae Eugene O'Neill (Jack Nicholson).

Hyd yn hyn mae'r ffilm yn dwt ac yn dynn a gellir gweld arwyddocâd y rhagymadroddi, ond yna, ceir talp hir o orfanylu gyda Reed yn mynychu llu o gyfarfodydd gwleidyddol ac yn teithio nôl ac ymlaen rhwng Rwsia a'r Unol Daleithiau.

Mae hanner cyntaf y ffilm yn rhy hir ac yn anniddorol mewn mannau. Gellid bod wedi cwtogi'n sylweddol ar y rhannau hynny a oedd yn mynnu canolbwyntio ar y ffrindiau a'r bobl

ymylol. Gwell o lawer yw'r ail ran ac o hyn allan mae'r ffilm yn wirioneddol ddifyr. Mae'r digwyddiadau yn Rwsia yn cael eu cyflwyno mewn ffordd fyw a chyffrous. Mae'r prysurdeb a'r sŵn yn gofiadwy iawn ac yn hynod realistig. Realistig hefyd yw'r gerddoriaeth a'r lliwiau, ac wrth wylio'r cyfan teimlwn fy mod yn llygad-dyst i ddigwyddiadau'r Chwyldro. Llwyddodd Beatty yn burion yn hyn o beth.

Peth anarferol iawn yw cael ffilm eang heddiw. Mae cynfas helaeth i'r ffilm hon a dylid llongyfarch Beatty am beintio stori fawr ar ei gynfas. Dylid ei longyfarch hefyd am chwarae'r brif ran, John Reed, â chymaint o argyhoeddiad. Cafwydd perfformiad digon grymus ganddo ond yn fwy cofiadwy o lawer oedd perfformiad Nicholson. Dyma yn sicr un o uchelfannau'r ffilm. Chwareuodd ei ran yn gynnil ac yn hyderus gan ymatal rhag mynd yn llethol neu'n ddi-nod. Cafwyd cyfuniad perffaith o'r holl elfennau dynol yn ei berfformiad.

Yn fyr, dyma ffilm ddifyr a phwysig er gwaethaf ei hyd. Mae'n ymdrech lwyddiannus i gofnodi digwyddiadau cyffrous y Chwyldro Rwsiaidd a hynny mewn ffordd ddiffuant.


TAFLEN


LLYFRAU,
CARDIAU, PAPURAU,
RECORDIAU, CASETIAU.

Canolfan yr Urdd,
Heol Conwy,
Caerdydd. 27530.

Ar agor tan 7 o'r gloch (5 ar nos Sadwrn).

CYFAMODIR POB ELW I
GANOLFAN YR URDD, CAERDYDD.

# Y CROESAIR - Ap Lewsyn RHIF 23



Ar Draws:

1. Goleuni'r golygon, sy'n troi allan yn y gwyll rhwng cant a phum cant (7,1,5)
10. Wedi dechrau ar dasg, mae boddhad -'- ------- (1'1 7)
11. Papur dylanwadol o'r Unol Daleithiau (5)
12. Capel y Bedyddiwr Albanaidd enwog, J.R.Jones, yn Llanfrothen, Sir Feirionnydd (5)
13. Nid fel deddfau'r Mediaid a'r Persiaid (9)
14. Pencadlys Lleng Rhufeinig yng Ngwent (8)
16. I beth mae garddwr yn defnyddio gwellaif (secateurs)? (1,5)
19. Tyn hwn o'th lygad dy hun cyn tynnu'r brycheuyn sydd yn llygad dy frawd.(6)
20. Clustog hir afler sydd â thant isel a neb ynddo (8)
22. Noddwn Deio yn afieithus am ei briodoleddau (9)
24. Bonheddwr - dyn da (a drwg o bosib) (5)
25. Plaen (5)
26. Mae'n mynd a'i ben iddo (9)
27. Gŵr dysgedig o'r dwyrain yn cael panad, a'i droi o gwmpas prentis ymhlith y planhigion pigog. (6,7)

I Lawr:

2. Y mae'n cymeradwyo (9)
3. Trawsfeddiannwyd ei winllan gan Ahab (5)
4. Stepan y drws (2,6)
5. Gadewch inni ymrestru (6)
6. Act y dychweledigion (2,3,4)
7. Braich seneddwr sy'n perthyn i gapel (5)
8. Troi'r un byd etc. i annhrefn a rhwygo cyfamod
9. Credoau cadarn, a dau hygar oedd i roi mynegiant iddynt (13)
15. Tair sill, e.e., sy'n peri rhwystr. (9)
17. Mae hi'n canu â llais isel (9)
18. Arteithio (8)
21. Natur y drefn Normanaidd o ddal tir ac o sicrhau gwasanaeth a theyrngarwch. (6)
23. Jail a llond rhwyd o bysgod. (5)
24. Rho ar y farchnad am bris. (5)

DATRYSIAD CROESAIR RHIF 22

Ar Draws:

4. YSGWYDDAU; 8. GWIAIL; 9. YMDDIRIED; 10. ARDDERCHOG; 11. DAIONI; 12. ABERDYFI; 13. DARGANFU; 16. CYD-LETYA; 19. ARCHWILIO; 21. ODANAF; 23. AWYRGYLCH; 24. GORSEDDOG; 25. NWYDAU; 26. TRYFESUR

I Lawr:

1. GWIREBU; 2. CADEIRIOL; 3. CLOCHDY; 4. Y LLYGAID NA ALL AGOR; 5. GO DDIDARO; 6. YMROI; 7. ACHENNAF; 14. ANNISGWYL; 15. ETIFEDDES; 17. YMDROIR; 18. DIAL CAM; 20. CHWYNNU; 22. NESAF

# C.N.D.

Wrth ddarllen sylwadau Rhodri Jones ar yr Ŵyl Dawnsio Gwerin sydd i'w chynnal yng Nghaerdydd ar y 19eg o Fehefin, daeth pwl o dristwch drosof wrth imi sylweddoli na allwn fynd iddi, a minnau â chymaint o ddiddordeb yn y diwylliant wir Gymreig, bydded yn ddawnsio neu ganu gwerin, yn ŵyl gerdd dant neu'n eisteddfod, a minnau hefyd yn digwydd rhannu penblwydd gyda Ioan Fedyddiwr, nawdd sant dawnsio gwerin!

Wel, medde chi, paham methu a mynd? Am fod digwyddiad arall o bwys i Gymru a'i phobl yn cymeryd lle yr un diwrnod yn Undeb y Myfyrwyr, Park Place, Caerdydd. Cyfeiriaf at Gynhadledd Genedlaethol CND Cymru, lle y bwriedir cyfuno holl weithgareddau a chymdeithasau heddwch Cymru mewn cyd-destun Cymreig, ac yn arbennig bydd ystyriaeth manwl i'r sefyllfa sy'n dilyn penderfyniadau pob un o'r wyth cyngor sir Cymreig a gyhoeddodd eu siroedd yn ardaloedd ddi-niwcliar yn gynharach eleni; ffaith a anwybyddwyd yn llwyr gan lywodraeth San Steffan a'i chynrychiolwyr yng Nghymru.

Ymysg cefnogwyr y Gynhadledd hon bydd 'Cymdeithas y Cymod' - cymdeithas heddychwyr Cristnogol Cymru, gyda'u hysgrifennydd, y Parchedig Gronw ab Islwyn, yn eu harwain. Yr wyf finnau'n aelod, a dyna paham y byddaf fi yn cynadledda yn lle dawnsio ar y 19eg o Fehefin eleni. Dymunaf pob hwyl i'r dawnswyr, ond os digwydd i'r tywydd droi'n gas, a ddowch chwi i ddawnsio dawns heddwch gyda ni?

Onid yw'n ddyletswydd arnom i ofalu am ddyfodol ein plant a cheisio sicrhau y bydd yna Gymru o gwbl iddynt ddawnsio a chanu ynddi?

Nia Rhosier.



Cyhoeddwyd gan Bwyllgor y Dinesydd
Argraffwyd gan Fingerprints(TU), 56 Mackintosh Place, Caerdydd